

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

<u>Adroddiad i'r:</u>	Pwyllgor Iaith
<u>Dyddiad y Cyfarfod:</u>	15fed o Fawrth 2024
<u>Teitl:</u>	Diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Cyflwyno diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029 a rhannu'r amserlen ymgynghori.

Cefndir:

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith gyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach. Yn rhan o'r Strategaeth mae'n ofynnol gosod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw.

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Strategaeth hon yn gosod sut bydd y Cyngor, yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol, a hynny drwy gyd-weithio gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-2029:

Daeth cyfnod y Strategaeth gyfredol i ben yn 2023 gydag adroddiad cyrhaeddiad wedi ei baratoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith. Mae'n ofynnol felly i ni baratoi Strategaeth newydd yn unol â'r gofynion statudol.

Bydd y Strategaeth newydd yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Strategaeth Iaith 2018-23 a'r gwaith arbennig a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir.

Ym mis Mehefin 2023 cynhaliwyd cyfarfod gyda rhanddeiliaid ac aelodau Dyfodol Dwyieithog i drafod Strategaeth 2024-29. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw daethpwyd a'r sylwadau a'r cynigion at ei gilydd fel sail i'r Strategaeth newydd.

Mae'r Strategaeth honno yn y broses o gael ei mireinio er mwyn gallu cyflwyno'r Drafft cyntaf i'r Pwyllgor Iaith yn y cyfarfod ddyddiedig ym mis Mehefin 2024 (dyddiad newydd i'w gadarnhau).

Mae'r drafft cychwynnol wedi gosod y nod canlynol ar gyfer y Strategaeth newydd:

Cynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Sir. Ein gweledigaeth yw y bydd y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir.

Yn ogystal er mwyn gwireddu'r weledigaeth gosodwyd 4 thema strategol - mae Ceredigion yn fan lle mae modd **dysgu, byw, perthyn a llwyddo** drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy gyflawni'r gweithredoedd sydd wedi'u hamlygu yn y Strategaeth hon:

1. Rydym eisiau gweld pawb o fewn y Sir yn rhoi gwerth a bri i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.
2. Rydym am weld defnydd cynyddol ohoni ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn y sir; lle mae modd i drigolion fyw, dysgu, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Rydym am sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbwl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.
4. Rydym yn tybio y bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 1 pwynt canran o 45.3% yn 2021 i 46.3% yn 2029, bydd hyn yn arwain at 267 o siaradwyr Cymraeg pellach oddi ar y llinell sylfaen 2021.

Bydd cynllun gweithredu yn gysylltiedig â phob un o'r pedair thema.

Amserlen:

Yn dilyn cyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Pwyllgor Iaith ym mis Mehefin bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet cyn agor cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024. Y bwriad yw cyhoeddi'r Strategaeth derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

Argymhelliad:

Cymeradwyo bod y ddogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet cyn agor cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024.

Atodiadau:

Atodiad 1- Amserlen Ymgynghoriad Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-29

Enw Cyswllt:

Carys Lloyd-Jones

Swyddogaeth:

Swyddog Polisi Iaith Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad:

26/2/2024

Amserlen ar gyfer [Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029]	Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i asesu'r farn gyfredol. Cynnal gwaith ymchwil pen desg	3/1				3/5							
Ysgrifennu eich adroddiad dadansoddi am ganlyniadau'r ymgyrch ymgysylltu, paratoi'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol a llunio'r strategaeth	3/1				3/5							
Cyflwyno'r strategaeth drafft, yr Asesiad Effaith Integredig cychwynnol a'r adroddiad dadansoddi gerbron y Pwyllgor Craffu						/6						
Cyflwyno'r strategaeth, yr adroddiad dadansoddi a'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol i'r Cabinet. Gofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymgyngoriad cyhoeddus (ar gyfer ymgyngoriadau statudol)							2/7					
Ymgyngori â'r cyhoedd ynglŷn â'r strategaeth drafft							2/7		1/9			
Ysgrifennu adroddiad sy'n dadansoddi'r ymgyngoriad, diwygio'r Asesiad Effaith Integredig os oes angen a pharatoi'r strategaeth terfynol									1/09	1/10		
Cyflwyno'r strategaeth terfynol, yr Asesiad Effaith Integredig a'r adroddiad dadansoddi i'r Pwyllgor Craffu											14/11	
Cyflwyno'r strategaeth terfynol, yr adroddiad dadansoddi, a'r Asesiad Effaith Integredig i'r Cabinet ei gymeradwyo												3/12
Cyhoeddi'r strategaeth terfynol ar wefan y Cyngor a'i anfon drwy e-bost at y rhanddeiliaid a thimau perthnasol y Cyngor												4/12

Noder: Mae angen caniatáu o leiaf 3 wythnos ar gyfer cyfieithu'r dogfennau ym mhob un o'r camau hyn